



Sut i baratoi ar gyfer llifogydd

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn tanlinellu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn canolbwyntio ar y pwnc o lifogydd, y peryglon a ddaw yn eu sgil a beth allwch chi ei wneud i baratoi ar eu cyfer.



Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw parhau i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am awyr, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella lles Cymru a darparu gwell dyfodol i bawb.

Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd dysgwyr yn gallu:

- Adnabod eitemau y dylid eu cynnwys mewn pecyn llifogydd ac esbonio pam
- Trafod syniadau ynghylch sut i baratoi eu hunain a'u cartrefi ar gyfer llifogydd
- Trosglwyddo'r neges i *aros allan* o ddŵr llifogydd

Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd

15-25munud

Lleoliad

Unrhyw le

Dolenni cwricwlwm

CA2 Daearyddiaeth

Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau

3. Disgrifiwch achosion a chanlyniadau sut mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid.

Archwilio

Arsylwi a holi cwestiynau am le e.e. Pam mae fan hyn yn gorlifo?

ABCh

Dinasyddiaeth weithredol

Gwerthfawrogi teulu a ffrindiau fel ffynhonnell cefnogaeth ar y cyd

Iechyd a lles emosiynol

Pwysigrwydd diogelwch personol

CA3 Daearyddiaeth

Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau

2. Esboniwch achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n cydberthyn

ABCh

Dinasyddiaeth weithredol

Deall materion pynciol, lleol a byd-eang

Iechyd a lles emosiynol

Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw corff a meddwl yn ddiogel ac iach

Offer ac adnoddau

- Cardiau adnodd: Pecyn Llifogydd
- Taflen wybodaeth : Beth sy'n mynd i'ch pecyn Llifogydd
- Taflen sut i baratoi ar gyfer Llifogydd

Adnoddau cyfeirio

- Llyfryn Beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd
- Cynllun llifogydd personol
- Cynllun llifogydd ysgol
- Cynllun llifogydd cymunedol
- Llyfryn: Sut i baratoi at llifogydd

Gellir lawrlwytho'r cyfan oddi ar y dudalen ganlynol:

<https://naturalresources.wales/flooding/what-to-do-before-a-flood/?lang=cy>

Beth i'w wneud

- Esboniwch bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio er mwyn sicrhau bod pobl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn barod ar eu cyfer.
- Rhannwch yn grwpiau o 4 neu 5.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut y gallen nhw baratoi eu hunain a'u cartref ar gyfer llifogydd?
- Trafodwch a chofnodwch y syniadau.
- Cyfeiriwch at y daflen *Sut i Baratoi ar gyfer Llifogydd*.
- Rhowch becyn o gardiau Pecyn Llifogydd i bob grŵp a gofynnwch iddynt gydweithio i benderfynu pa rai o'r eitemau hyn y bydden nhw'n eu cynnwys yn eu pecyn llifogydd a pham. Gallent rannu'r cardiau'n dri phentwr: hanfodol, defnyddiol ac andefnyddiol.
- Ar ôl y gweithgaredd, trafodwch ddewisiadau'r grwpiau a rhowch adborth gan gyfeirio at y daflen wybodaeth *Beth sy'n Mynd i'ch Pecyn Llifogydd*.
- Tynnwch sylw at y gwasanaeth Rhybudd Llifogydd fel cam y gall y gall pobl ei gymryd. Mae CNC yn cynnig y gwasanaeth trwy gyfrwng ffôn, ffacs, testun, e-bost ac mae'n rhad ac am ddim! Ffoniwch 0345 988 1188 i gofrestru.

Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pa eitemau hanfodol fyddai angen i chi fynd gyda chi pe baech chi'n cael eich gorfodi i adael eich tŷ am nifer o dyddiau?
- Pam y mae'r pethau hyn yn bwysig?
- Sut fydddech chi'n darganfod a yw eich cartref mewn perygl o orlifo?

Addasu ar gyfer anghenion / galluoedd gwahanol

Llai galluog

- Dosbarthwch y cardiau gan gynnwys eitemau hanfodol ac ambell un diwerth e.e. adenydd nofio. Dywedwch wrth y dysgwyr sawl un o bob un sydd. Gofynnwch iddynt benderfynu pa rai sy'n hanfodol a pha rai sydd heb fod yn ddefnyddiol, athrafodwch y rhesymau.

Mwy galluog

- Gofynnwch i bob grŵp drefnu'r cardiau ar ffurf diemwnt gan flaenoriaethu'r gwrthrychau sydd fwyaf pwysig yn eu barn hwy.
- Rhannwch 10 cerdyn gwag a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu enwau eitemau y maen nhw'n eu hystyried sy'n bwysig i'w gynnwys yn eu pecyn llifogydd.
- Trafodwch a oes aelodau'r gymuned fyddai angen cymorth.
- Ystyriwch flaenoriaethau wrth ddatblygu cynllun llifogydd ar gyfer safle penodol e.e. ysgol neu arall.

Gweithgareddau dilynol / ymestynnol

- Ailedrychwch ar beryglon dŵr llifogydd a'r angen i fod yn barod ar gyfer llifogydd.
- Mae adnoddau llifogydd eraill, gan gynnwys mapiau llifogydd presennol, diweddariadau lefelau afonydd a'r môr, cynlluniau llifogydd personol, ar gael ar wefan CNC.
- Cydweithwch i ddatblygu cynllun llifogydd.
- Rhowch gynnig ar y gweithgaredd *Cynllun Dianc mewn Argyfwng*.
- Rhowch gynnig ar weithgaredd *Canlyniadau Llifogydd*.



Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Swyddogion Ennyn Diddordeb Ymwybyddiaeth Llifogydd sy'n gweithio gyda chymunedau ble mae perygl o lifogydd. Maen nhw'n gweithio i gynyddu gwytnwch drwy gefnogi cymunedau i weithredu'n gadarnhaol i baratoi ar gyfer llifogydd. Mae gweithredu'n cynnwys gofyn am dderbyn rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim; gweithredu fel Arweinydd ar gyfer y gymuned a datblygu cynlluniau llifogydd ar gyfer pobl, ysgolion, cartrefi a busnesau.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan CNC os gwelwch yn dda:

<https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>



Fformat amgen; print bras neu iaith arall, cysylltwch os gwelwch yn dda: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®. Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®.



Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%.
Printed on Revive offset 100% recycled paper.